


8B3


Blog

4

Bois



Trwy'r darlun yw'r llyfr sydd wedi dal fy sylw i. Stori sydd yn llawn antur a trobwyntiau anisgwyl yw'r llyfr hyn ac mae'n fy nghadw I fyny trwy'r nos. Y gwir yw daeth Dad i mewn i'r ystaffell a dweud bod hi'n rhy hwyr i ddarllen un nos, nes i ddim orffen y bennod!! Os ydych chi yn chwilio am lyfr sydd gyda chreduriaid dychmygol a chymeriadau gydag enwau doniol . Hwn yw'r



llyfr i chi.

Gan Bryn Richards

# Blog:Y Bancsi Bach

Rydym newydd ddarllen 'Y Bancsi Bach' ac ond wedi darllen hyd at bennod 5 ar hyn o bryd. Awdur y llyfr yw Tudur Dylan Jones. Mae y llyfr Y Bancsi Bach yn llyfr am fachgen o'r enw Owen ac mae yn hoffi celf ond nid celf cyffredin, mae'n hoffi graffiti. Mae Owen yn creu eu syniad ar ddarn o bapur. Ac yna yn nos mae yn gwisgo dillad yn du ac mae yn mynd i greu y darn yma ar wal gyda phaent chwistrellu. Hoffai Owen weld ei ddarn yn y bore ond mae yn cael ei darfu felly dydy Owen methu gweld ei lun.




# Blog: Foxy'r Llew

Nofel ddiddorol yw hon achos rydych yn dysgu am fywyd Jonathan Davies fel plentyn bach a'i gyrfa yn byd rygbi. Alun Gibbard wnaeth helpu Jonathan Davies i greu y llyfr hwn a'i ysgrifennu. Mae'r llyfr yma yw wych achos mae'n ysbridoli ni i chwarae rygbi a mae'n adrodd bywyd Jonathan Davies. Mae Alun Gibbard hefyd wedi ysgrifennu llyfrau amdano Jamie Roberts a



George North. Bydden i'n argymhell y nofel hon i unrhyw un sy'n hoffi

rygbi. Mae'n nofel be-





# T Llew Jones



Un o storïau cyn-  
taf T Llew Jones oedd Trysor  
Plasywernen a cafodd ei  
ysgrifennu yn 1958

Roedd T Llew Jones yn  
ysgrifennu llawer. Cafodd ei  
eni ar y 11<sup>fed</sup> o Hydref 1915  
yng Nghymru. Ei enw llawn  
oedd Thomas Llywellyn  
Jones.

Ysgrifennodd T. Llew Jones  
20 o lyfrau am dros 50  
mlynedd

Rhai o llyfrau poplogaidd T.  
Llew Jones oedd

Trysor Plasywernen (1958)  
Un Noson Dywyll (1973)  
Tan ar y Comin (1975)  
Diorgelwch yr Ogof (1977)  
Trysor Morladron (1960)  
Corn, Pistol a Chwip (1969)


A Llawer Mwy



“Mae llyfrau T Llew Jones yn llawn  
dychymyg a chymeriadau unigryw.  
Maen nhw’n gret!” – Miss L Jones

“ Rydw i’n argmell i chi ddarllen y  
llyfrau hyn!!!!!!!!!!” – Bryn Richards

Gan Bryn Peters



## Gerard Siggins



Gerad Siggins yw Newyddiadurwr o Weriniaeth Iwerddon. Ganwyd Gerard Siggins yn 1962 ym mhrifddinas Iwerddon, Dilyn.

Mae Gerard Siggins yn Newyddiadurwr Chwaraeon. Roedd e wedi bod yn gweithio am flynyddoedd yn y 'Sunday Tribune.' Mae Gerard Siggins wedi ysgrifennu llwyth o lyfrau am griced a rygbi. Mae un o'i lyfrau sef 'Rugby Spirit' wedi gwerthu dros 50,000 o gopiau. Hefyd mae'r llyfr yn boblogaidd gyda phlant sydd y hoff iawn o chwaraeon dros y byd i gyd.



Gan Osian Jones

